O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2017 Rhif 770 (Cy. 185)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Man i'r Dwyrain o Dreberfedd i Nant-y-dugoed, Powys) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Gorffennaf 2017* |
| *Yn dod i rym* | *18 Gorffennaf 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A458 Amwythig i Ddolgellau, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Gorffennaf 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Man i'r Dwyrain o Dreberfedd i Nant-y-dugoed, Powys) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2017.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” *(“works period”)* yw cyfnodau ysbeidiol a fydd yn cychwyn am 08:00 o’r gloch ar 18 Gorffennaf 2017 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o waith wedi eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” *(“the trunk road”)* yw Cefnffordd yr A458 Amwythig i Ddolgellau yn Sir Powys sy’n ymestyn o ffin Powys/Swydd Amwythig, i'r dwyrain o Dreberfedd, hyd at ffin Powys/Gwynedd yn Nant-y-dugoed;

ystyr “lluoedd arbennig” *(“special forces”)* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd ar gyflymder mwy na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd ar gyflymder mwy na 30 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd ar gyflymder mwy na 10 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu defnyddio cerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r

gefnffordd yn ystod y cyfryw amseroedd pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

### Atal Dros Dro

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

### Cymhwyso

**8.**—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn eu dangos

(2) Nid yw unrhyw terfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Gorffennaf 2017

*Nina Ley*
Pennaeth Yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru